CSCC | Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru
NICW | National Infrastructure Commission Wales

# Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru
# Adroddiad Blynyddol

## Crynodeb Gweithredol

Rydyn ni wedi penderfynu peidio ag argraffu copïau o'n Hadroddiad Blynyddol ac eithrio ychydig gopïau o'r Crynodeb Gweithredol hwn. Fe welwch gopi o'r adroddiad llawn ar-lein.

2019

**Cafodd Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru ei sefydlu yn 2018 fel corff anstatudol i gynghori Gweinidogion Cymru a gwneud argymhellion iddyn nhw ynghylch y seilwaith economaidd ac amgylcheddol sydd ei angen dros y pum i 30 mlynedd nesaf.**

Ein hamcan pennaf yw rhoi cyfle i bawb yng Nghymru i wella'u lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol trwy argymell seilwaith fydd yn adeiladu economi ddeinamig a chydnerth.

Yn ein blwyddyn gyntaf, rydyn ni wedi edrych ar gyflwr seilwaith Cymru'n gyffredinol ac wedi dod i ddeall ychydig sut y bydd y newidiadau yn yr economi a'r amgylchedd ac mewn technoleg yn gofyn am fathau newydd o seilwaith.

Rydyn ni wedi siarad â rhanddeiliaid o bob rhan o Gymru i ddeall nodweddion unigryw ein gwlad a'r amryfal ffyrdd y mae pobl yn byw, gweithio a chwarae yn ein cymunedau trefol a gwledig amrywiol.

Mae hyn wedi'n harwain at rai casgliadau cychwynnol am seilwaith y dyfodol ac rydyn ni'n awr yn chwilio am ragor o dystiolaeth i gefnogi'r casgliadau hynny. Rydyn ni hefyd wedi crynhoi'r pynciau llosg sy'n ymwneud ag ynni, cyfathrebu digidol a thrafnidiaeth a byddwn am ymchwilio iddyn nhw'n ddyfnach.

Ffrwyth ei maint, ei hanes a'i thopograffi yw Cymru. Gwlad y glo, y llechi a'r dur oedd Cymru unwaith. Bellach mae'n gartref i ddiwydiannau a gwasanaethau modern. Mae'n gyflenwr bwyd ac ynni pwysig i'r Deyrnas Unedig. Mae lefelau cyflogaeth yn gymharol uchel, gyda sectorau addysg bellach ac uwch cryf i'w cynnal. Ac mae gennym hunaniaeth ddiwylliannol gref a nodedig.

O ran yr amgylchedd, mae yma botensial anferthol i harneisio ynni adnewyddadwy. Ac rydyn ni gyda'r gorau am ailgylchu gwastraff domestig.

Ond mae heriau i'w hwynebu. Rydyn ni'n wlad fach, yn denau ein poblogaeth o'n cymharu â Lloegr, gydag ond ychydig o ganolfannau poblog mawr. Mae cynhyrchiant a lefelau sgiliau'n isel ac mae cyfran gymharol uchel o'n swyddi yn y sector cyhoeddus.

A ninnau'n byw ar wasgar mewn cymunedau bach, rydyn ni wedi dod yn rhy ddibynnol ar drafnidiaeth breifat. Mae'n pobl yn heneiddio ac mae nifer y rheini sydd o oed gweithio yn lleihau. A law yn llaw â gweddill pobl y byd, rydyn ni'n wynebu heriau helbulon ariannol a hinsawdd sy'n newid.

Mae cryfderau, cyfleoedd a heriau'n gwlad yn ein helpu i roi cyd-destun i'n canfyddiadau cychwynnol a'r pynciau llosg sy'n ein hwynebu. Ond rhaid pwysleisio mai megis dechrau mae'r broses a gwnawn ni ddim rhuthro'n fyrbwyll i wneud argymhellion i Weinidogion Cymru tan y gwelwn tystiolaeth gref pa seilwaith all gynnig ateb.

Byddem yn gallu asesu gwerth posibl prosiectau seilwaith newydd gymaint yn well pe bai gennym ddata gwell am berfformiad prosiectau'r gorffennol. Byddwn yn ymchwilio i botensial gwerthuso gwell sy'n seiliedig ar ddata cadarn.

Y prif themâu rydym wedi'u nodi yw datgarboneiddio, cysylltedd a chydnerthedd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi pennu trywydd at ddatgarboneiddio yn Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel. Bydd seilwaith yn gyfrwng pwysig i sicrhau'r newid hwnnw.

Byddwn yn ystyried sut y bydd rhwydweithiau trafnidiaeth, tagfeydd a'r newid i gerbydau trydan yn datblygu yn y dyfodol. Byddwn yn ymchwilio sut i ddod â chysylltedd digidol i bob rhan o Gymru.

Daw cydnerthedd ein seilwaith yn fater fwyfwy pwysig wrth i'r newid yn yr hinsawdd a'r cynnydd yn lefel y môr ddod â heriau newydd.

Mae'n ddyddiau cynnar yn natblygiad ein cynllun seilwaith ond rydyn ni wedi dod i rai casgliadau cychwynnol y bydd angen tystiolaeth arnon ni ar eu cyfer ac rydyn ni wedi nodi prif themâu o ran seilwaith y byddwn yn eu hystyried yn y flwyddyn i ddod.

## Cyfathrebu Digidol

Dylen ni ganolbwyntio'n harian cyhoeddus yn bennaf ar ddod â band eang cyflym iawn i gymaint o gartrefi â phosib gan ddefnyddio'r dechnoleg rataf. Rydyn ni'n chwilio am dystiolaeth ai pwyslais Llywodraeth y DU ar ddod â'r dull drutach, 'ffeibr i'r cartref', i bob aelwyd yn y DU fyddai'n dod â'r budd mwyaf i bobl Cymru, gan gynnwys y rheini sydd heb fand eang cyflym iawn ar hyn o bryd.

Rydyn ni'n chwilio am dystiolaeth ynghylch pa fesurau ychwanegol y gallai Llywodraeth Cymru eu cymryd i sicrhau gwelliannau sylweddol yn y cysylltiadau band eang symudol. Ein barn gychwynnol yw mai band eang symudol 4G a 5G fyddai'r dechnoleg rataf i ddarparu cysylltiadau cyflym iawn i rai cartrefi yng Nghymru ac y dylai cyfran uwch o arian cyhoeddus gael ei neilltuo i fand eang symudol yn hytrach nag i fand eang sefydlog neu seilwaith arall.

## Ynni

Rydyn ni'n ceisio deall sut y mae'n grid trydan yn cyfyngu ar y potensial i gynhyrchu mwy o ynni adnewyddadwy, a beth yw gwraidd y cyfyngiadau hynny. Rydyn ni'n chwilio am ragor o dystiolaeth ynghylch sut i wella'n gyflym y berthynas rhwng grid ynni Cymru a'r twf mewn ynni adnewyddadwy yn y dyfodol, gan gynnwys ffyrdd newydd o storio ynni, peirianneg drydanol, y system gynllunio ac ymyriadau eraill gan lywodraeth.

Rydyn ni'n chwilio am dystiolaeth ynghylch potensial cynhyrchu ynni'r môr yn gost-effeithiol ar raddfa fasnachol yng Nghymru a'r mesurau sydd eu hangen i'w wireddu. A ddylid cloriannu'r manteision economaidd posibl, o safbwynt swyddi a buddsoddiad yng Nghymru, yn erbyn costau uwch posibl ynni'r môr i gwsmeriaid?

Ein barn gychwynnol yw y gallai prosiectau seilwaith cymunedol a datganoledig fod â rhan bwysig i'w chwarae ar gyfer gweddnewid y gadwyn cyflenwi ynni. Rydyn ni'n chwilio am dystiolaeth i ddeall sut mae estyn cynlluniau cymunedol a beth yw'r rhwystrau i ddatganoli, gan gynnwys presenoldeb y grid trydan a seilwaith dosbarthu. Rydyn ni'n chwilio hefyd am dystiolaeth sut y gellid cyllido'r prosiectau hyn. A ddylid cloriannu'r manteision economaidd posibl, o safbwynt swyddi a buddsoddiad, yn erbyn costau uwch posibl ynni adnewyddadwy i gwsmeriaid?

## Trafnidiaeth

Mae gwella'r cysylltedd ar hyd coridorau'r Dwyrain-Gorllewin, i/o Loegr, yn y Gogledd-ddwyrain a'r De-ddwyrain yn flaenoriaeth. Sut mae cynyddu'r capasiti a lleihau tagfeydd?

Gall cysylltu ardaloedd lleol â chanolfannau economaidd mawr roi hwb i ddatblygu ac adfywio economaidd, er enghraifft ym Mlaenau'r Cymoedd. Pa rannau o Gymru sydd angen y datblygiadau hyn fwyaf a beth yw'r ffyrdd mwyaf effeithiol o greu'r cysylltiadau hynny?

Mae gan Gymru'r potensial i wella'i chysylltedd â gweddill y byd yn yr awyr ac ar y môr, er lles teithwyr a chludiant nwyddau. Sut gallai Cymru wella'i chysylltedd â gweddill y byd a beth fyddai'r costau a'r manteision?

Nid oes achos economaidd cryf o blaid datblygiadau mawr i wella'r ffyrdd a rheilffyrdd rhwng y De a'r Gogledd. Ein barn gychwynnol yw y medrwn ni wella'r cysylltiadau rhwng y De a'r Gogledd trwy ddatblygiadau ategol megis gwella'r cysylltedd digidol ar hyd y prif lwybrau cludiant, gwella'r mannau pasio

a gorffwys, mannau gwefru cerbydau trydan a gwella'r cerbydau trên.

Rhaid paratoi seilwaith ffyrdd Cymru ar gyfer newid i gerbydau heb allyriadau. Mae angen deall yn well sut mae hwyluso'r newid i drafnidiaeth heb allyriadau ar y ffyrdd. Mae gennym ddiddordeb mewn gweld tystiolaeth ynghylch: parodrwydd Cymru o'i chymharu â rhannau eraill y DU, y rhwystrau o ran seilwaith i gludiant heb allyriadau a sut mae eu chwalu, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig lle na all y farchnad o bosib gynnig ateb.

Mae trafnidiaeth yng Nghymru'n creu heriau gwahanol a bydd angen atebion gwahanol mewn ardaloedd gwledig ac ardaloedd trefol. Sut mae creu strategaeth drafnidiaeth addas i'r ddwy.

Pe bai llai o angen i bobl deithio, byddai hynny'n golygu llai o dagfeydd a llai o allyriadau carbon. Mae angen ymchwilio i opsiynau ar gyfer lleihau'r angen i deithio. Sut gallai polisi cyhoeddus mewn meysydd eraill leihau'r angen i deithio?

Bydd y comisiwn yn cyflwyno'i gynllun ar gyfer seilwaith Cymru maes o law. Bydd yn galluogi Llywodraeth Cymru i ddatblygu strategaeth fforddiadwy ar gyfer darparu'r seilwaith sydd ei angen arnom a'n helpu i gael dyfodol llewyrchus y gallwn oll elwa arno.

Mae'r Adroddiad Blynyddol llawn (ynghyd â Chais am Dystiolaeth) ac adroddiad ar ddata sylfaenol y comisiwn ar gael ar-lein: **llyw.cymru/comisiwn-seilwaith-cenedlaethol-cymru**



OGL © Hawlfraint y Goron 2019
WG38080 ISBN Digidol: 978 1 83933 459 7 ISBN Argraffu: 978 1 83933 458 0

Mae'r ddogfen hon ar gael mewn print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill drwy wneud cais.